# CYNGOR SIR FYNWY

## Pwyllgor Cynllunio
## Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
## Dydd Mawrth, 1af Chwefror, 2022/ 2.00 pm

**CYNGHORWYR YN BRESENNOL:**

Cynghorydd Sirol R. Edwards (Cadeirydd)
Cynghorydd Sirol P. Jordan (Is-Gadeirydd)

Cynghorydd Sirol: J.Becker, Louise Brown, Tony Easson, M.Feakins, R. Harris, J. Higginson, G. Howard, Phil Murphy, Maureen Powell, Ann Webb, S. Woodhouse

### SWYDDOGION YN BRESENNOL:

| | |
|---|---|
| Craig O'Connor | Head of Planning |
| Philip Thomas | Rheolwr Gwasanaethau Datblygu |
| Andrew Jones | Development Management Area Team Manager |
| Denzil – John Turbervill | Commercial Solicitor |
| Richard Williams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

### YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Sirol A.Davies

1. **Apwyntio Is-gadeirydd.**

Apwyntiom y Cynghorydd Sir P. Jordan yn Is-Gadeirydd.

2. **Datganiadau o Fuddiant**

Dim wedi'u derbyn.

3. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cytunom i ohirio ystyried cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar y 12fed o Ionawr 2022 nes cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio er mwyn rhoi cyfle i gynrychiolydd cyfreithiol y Pwyllgor adolygu'r recordiad o'r cyfarfod gyda'r bwriad o roi eglurder ar gywirdeb y cofnodion o ran paragraff ar dudalen 10 sy'n ymwneud â chais DM/2019/01937.

4. **Cais DM/2021/01277 – Cadw'r eisteddle presennol ar gyfer 100 o bobl. Eisteddle arfaethedig ar gyfer 100 o bobl, eisteddle arfaethedig ar gyfer 50 o bobl ac estyniad i faes parcio Clwb Pêl-droed Tref Cas-gwent, Parc Larkfield, Cas-gwent, NP16 5PR.**

Ystyriom adroddiad y cais a'r ohebiaeth a dderbyniwyd yn hwyr a oedd wedi'u hargymell i'w cymeradwyo yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Mynychodd yr aelod lleol dros Larkfield y cyfarfod yn dilyn gwahoddiad gan y Cadeirydd ac amlinellodd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r Clwb Pêl-droed angen datblygu'r cae er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio gyda meini prawf Cymdeithas Bêl-droed Cymru er mwyn galluogi'r clwb i gamu mlaen o fewn strwythur y gynghrair.

- Mae'r clwb wedi ei leoli mewn ardal breswyl ac mae angen iddo gymryd ei gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol o ddifri fel cymydog da.

- Mae pryderon yn lleol o ran ei gapasiti presennol a'i allu i reoli traffig ar ddiwrnod gêm a thraffig a ddaw yn sgil cystadlaethau pêl-droed a gynhelir yn y clwb. Mae'r cynigion ychwanegol wedi gwneud y pryderon yn waeth.

- Pwysleisiwyd fod angen i'r clwb ddangos tystiolaeth o ran y camau y mae'n bwriadu eu cymryd i reoli parcio ar y safle a thraffig ar y ffyrdd. Mae angen i hyn gael ei wneud drwy gyfrwng Cynllun Rheoli Traffig ac mewn partneriaeth weithredol gyda'r Heddlu er mwyn osgoi problemau pellach o ran sefyllfa parcio trigolion yn ystod y dyddiau y mae gêm yn cael ei chynnal. Mae'r cynlluniau diwygiedig o ran capasiti parcio ar y safle, a datblygu Cynllun Rheoli Traffig yn gam mawr y mlaen o ran mynd i'r afael â phryderon y preswylwyr. Mae'r cynllun yn ddibynnol ar wirfoddolwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol.

- Tynnodd yr Aelod Lleol sylw at ymateb yr Adran Priffyrdd a amlinellir yn yr adroddiad. Ystyriwyd fod angen sefydlu mecanweithiau adolygu er mwyn rhoi cyfle i'r holl randdeiliaid werthuso pa mor llwyddiannus y mae'r cynllun wedi'i gyflwyno ac a oes angen cymryd camau pellach, megis cyflwyno rheoliadau traffig, yn y dyfodol.

- Dylid rhoi'r Cynllun Rheoli Traffig ar waith cyn i'r datblygiad gael ei gwblhau er mwyn mynd i'r afael â'r problemau traffig sy'n bodoli'n barod.

- Yn dilyn adolygiad o'r cynlluniau, mae'n ymddangos mai bach iawn fydd effaith weledol y ddwy eisteddle newydd. Er hyn, teimlwyd fod angen i'r Pwyllgor asesu lleoliad yr eisteddleoedd drosto ei hun cyn gwneud penderfyniad ar y cais.

- Mae angen i'r clwb ddod o hyd i ffordd o gyd-fyw gyda phreswylwyr a sicrhau fod unrhyw effaith, nawr ac yn y dyfodol yn cael ei reoli a'i liniaru'n briodol.

Ymatebodd Rheolwr y Gwasanaethau Datblygu fel a ganlyn:

- Nid oes ymateb wedi'i dderbyn gan yr Heddlu hyd yma.

- Yn dilyn derbyn sylwadau gan yr Adran Priffyrdd, teimlwyd fod y cynllun yn ymarferol a'i fod yn cynnig gwelliant ar y sefyllfa bresennol.

- Mae'r Adran Priffyrdd yn cytuno i'r cynllun arfaethedig yn ddarostyngedig i amodau.

- Bydd yr amod sy'n ymwneud â'r Cynllun Rheoli Traffig yn dod i rym ar y dyddiad y mae'r caniatâd cynllunio'n cael ei roi.

- Nid oes sail i wrthwynebu gan fod y cynnig o ran y sefyllfa parcio a darparu Cynllun Rheoli Traffig yn welliant aruthrol o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol.

- Mater i'r Heddlu a'r Adran Priffyrdd fyddai gorfodaeth o ran unrhyw broblemau parcio.

Yn dilyn adolygu'r adroddiad, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae angen cefnogi'r clwb i ddatblygu

- Mae'r Clwb yn gwneud cais yn ôl-weithredol am eisteddle sy'n bodoli'n barod. Ystyriwyd mai priodol fyddai gwneud cais am Gynllun Rheoli Traffig a fyddai'n cael ei orfodi gan yr Heddlu a'r Adran Priffyrdd.

- Nid oedd modd ychwanegu amod ychwanegol a fyddai'n golygu cyflwyno gorchymyn rheoleiddio traffig yng nghyffiniau'r Clwb am fod hyn yn gorwedd o fewn cwmpas deddfwriaeth y Ddeddf Priffyrdd ac nid yw'n rhan o gylch gwaith deddfwriaeth Cynllunio.

Rhoddodd yr Aelod Lleol grynodeb fel a ganlyn:

- Mae'n anffodus nad yw'r Heddlu wedi gallu rhoi sylwadau ar y cais yma eto.

- Y gobaith oedd y byddai modd i'r Cyngor Sir fod yn hwylusydd o ran ymgysylltiad rhwng y Clwb a'r Heddlu er mwyn sicrhau fod gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi'n briodol.

- Mae'r Adran Priffyrdd wedi tanlinellu'r problemau presennol o ran parcio ar strydoedd preswyl. O ganlyniad i ehangu'r cyfleusterau bydd y problemau'n gwaethygu os nad ydynt yn cael eu rheoli mewn modd priodol.

- Efallai y bydd angen ystyried cyflwyno gorchymyn gwahardd parcio neu orchymyn parcio i breswylwyr yn unig os yw'r Cynllun Rheoli Traffig yn methu â mynd i'r afael â'r problemau o ran priffyrdd.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir P. Murphy, ac eiliodd y Cynghorydd Sir G. Howard fod cais DM/2021/01277 yn cael ei gymeradwyo yn ddarostyngedig i'r amodau sydd wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad.

Wrth gael ei roi i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| O blaid cymeradwyo | - | 12 |
| Yn erbyn cymeradwyo | - | 0 |
| Yn ymatal | - | 0 |

Cymeradwywyd y cynnig.

Penderfynom y dylid cymeradwyo cais DM/2021/01277 yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

**5. <u>Cais DM/2021/01367 – Newid y defnydd a wneir o'r adeilad o swyddfeydd i annedd sengl a'r gwaith perthnasol. Ashbourne House, 33 Heol y Bont, Cas-gwent.</u>**

Ystyriom adroddiad y cais a'r ohebiaeth a dderbyniwyd yn hwyr a oedd wedi'u hargymell i'w cymeradwyo yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Rhoddodd yr Aelod Lleol dros St. Mary's, sydd hefyd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, wybod i'r Pwyllgor ei fod yn croesawu'r cais a throi'r eiddo'n leoliad preswyl unwaith eto gan fod hyn yn well amwynder i'r cymdogion.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad a safbwyntiau'r Aelod Lleol, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Dylid ystyried mesurau ynysu sŵn yn yr adeilad o ystyried fod yr eiddo gyferbyn yn cael ei ddefnyddio at ddibenion A3. Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Datblygu wybod i'r Pwyllgor y gellid ychwanegu gwybodaeth er mwyn rhoi ystyriaeth i'r mater yma.

- Mae'r cais yn gynnig rhesymol i droi'r adeilad yn un a ddefnyddir at ddibenion preswyl unwaith eto.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir J. Becker, ac eiliodd y Cynghorydd Sir P. Murphy, fod cais DM/2021/01367 yn cael ei gymeradwyo yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad a fod gwybodaeth yn cael ei ychwanegu er mwyn ystyried yr angen i ynysu'r adeilad rhag sŵn o ystyried fod yr adeilad sydd gyferbyn yn cael ei ddefnyddio at ddibenion A3

Wrth gael ei roi i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| O blaid cymeradwyo | - | 13 |
| Yn erbyn cymeradwyo | - | 0 |
| Yn ymatal | - | 0 |

Cymeradwywyd y cynnig.

Penderfynom y dylid cymeradwyo cais DM/2021/01367 yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad a fod gwybodaeth yn cael ei ychwanegu er mwyn ystyried yr angen i osod ynysu'r adeilad rhag sŵn o ystyried fod yr adeilad sydd gyferbyn yn cael ei ddefnyddio at ddibenion A3.

**6. <u>Cais DM/2021/01421 – Gosod paneli solar newydd ar doeon y cerbydau rheilffordd sydd yno'n barod. Yr Hen Orsaf, Tyndyrn, Cas-gwent, NP16 7NX.</u>**

Ystyriom adroddiad y cais a'r ohebiaeth a dderbyniwyd yn hwyr a oedd wedi'u hargymell i'w cymeradwyo yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Mynegodd yr Aelod Lleol dros St. Arvans, sydd hefyd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, ei chefnogaeth i'r cais a chroesawodd ychwanegu'r paneli am eu bod yn cyd-fynd ag ymrwymiad y Cyngor i'w bolisi lleihau carbon

Yn dilyn derbyn yr adroddiad a safbwyntiau'r Aelod Lleol, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Bydd cymeradwyo'r cais yn gwella'r ardal leol

- Mewn ymateb i gwestiwn yn ymwneud â gwrthwynebiadau Cyfeillion Gorsaf Tyndyrn i'r cais hwn (amlinellir yn yr adroddiad) nodwyd fod y Swyddogion Cynllunio'n fodlon nad oedd y cais yn achosi niwed annerbyniol i'r ardal.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir A. Webb, ac eiliodd y Cynghorydd Sir J.Becker fod cais DM/2021/01421 yn cael ei gymeradwyo yn ddarostyngedig i'r amodau sydd wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad.

Wrth gael ei roi i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| O blaid cymeradwyo | - | 13 |
| Yn erbyn cymeradwyo | - | 0 |
| Yn ymatal | - | 0 |

Cymeradwywyd y cynnig.

Penderfynom y dylid cymeradwyo cais DM/2021/01421 yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

## 7. <u>ER GWYBODAETH – Yr Arolygaeth Gynllunio – Penderfyniadau Sydd Wedi Eu Derbyn Am Apeliadau:</u>

### 7.1. Ravensnest Fishery, Ravensnest Wood Road, Tyndyrn.

Derbyniom adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio a oedd yn ymwneud â phenderfyniad apêl a wnaed yn dilyn ymweliad safle â Physgodfa Ravensnest, Ravensnest Wood Road, Tyndyrn ar yr 22ain o Dachwedd 2021.

Nodwyd fod yr apêl wedi cael ei ollwng.

Diolchodd yr Aelod Lleol dros St. Arvans y Swyddogion Cynllunio am eu gwaith mewn perthynas â'r mater yma.